Polisi canser yn y gweithle

Tabl cynnwys

1 Rhesymeg dros ddatblygu polilsi 2
2 Polisi 2
3 Gweithredu'r polisi 3

1 Rhesymeg dros ddatblygu polisi

Diben y polisi hwn yw:

- sicrhau arfer da wrth ymdrin â chanser yn y gweithle
- darparu fframwaith ar gyfer cynorthwyo gweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan ganser
- rhoi arweiniad i reolwyr ar sut i gynorthwyo gweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan ganser ac ymdrin â materion cyflogaeth
- cyfeirio rheolwyr a staff at ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad
- sicrhau y caiff ein holl weithwyr eu trin yn deg ac yn gyson.

2 Polisi

Ein nod yw cyrraedd a gwella bywydau pawb sy'n byw gyda chanser.

Yn ogystal â chynorthwyo pobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser y tu allan i Macmillan, rydym am gynorthwyo ein gweithwyr ein hunain sy'n cael eu heffeithio gan yr afiechyd yn y modd gorau posibl. Ein polisi felly yw:

- cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol unigol i staff sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan ganser, a chreu amgylchedd ar eu cyfer sy'n gofalu amdanynt ac sy'n eu deall
- arwain y blaen o ran datblygu arfer gorau wrth ymdrin â chanser a materion sy'n ymwneud â'r gwaith. Byddwn yn treialu hyn ym Macmillan a chaiff ein rheolwyr a'n gweithwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r adnoddau i gefnogi'r nod hwn
- cynorthwyo gweithwyr - pa un a ydynt newydd ganfod bod ganddynt ganser, yn cael triniaeth neu'n gwella o ganser - yn y gweithle a thra maent yn absennol o'r gwaith
- gwneud beth bynnag y mae'n rhesymol bosibl i ni ei wneud i'w helpu i ymgymryd â'u gwaith, fel y bo'n briodol, yn ystod eu taith drwy'r canser, a gwneud popeth a allwn i hwyluso eu proses o ddychwelyd i'r gwaith ar ôl y driniaeth
- anelu at gynnig manteision megis PMI (yswiriant meddygol preifat) ac aswiriant bywyd sy'n arbennig o fanteisiol i staff sydd â salwch critigol, yn dibynnu ar ein hadnoddau
- cynorthwyo'r bobl sydd â'r prif gyfrifoldeb neu'r cyfrifoldeb eilaidd dros ofalu am rywun sy'n cael ei effeithio gan ganser
- cynorthwyo unigolion a thimau sydd â chydweithiwr sy'n cael ei effeithio gan ganser
- sicrhau bod arferion Adnoddau Dynol da ar waith er mwyn gallu gwneud penderfyniadau am recriwtio, dyrchafiadau a chynnig hyfforddiant a chyfleoedd eraill ar sail teilyngdod ac na fydd diagnosis o ganser (pa un a yw'n digwydd ar y pryd neu wedi digwydd yn flaenorol) yn arwain at driniaeth annheg neu wahaniaethol.

Caiff canser ei ddiffinio fel anabledd o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd) o'r adeg y caiff ei ganfod. Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y Ddeddf ond mae'n mynd y tu hwnt i safonau gofynnol.

Bydd yr arferion penodol a roddir ar waith gennym i gynorthwyo staff sydd wedi canfod bod ganddynt ganser yn cynnwys:

- cymorth sensitif, ymarferol gan eu rheolwr llinell yn ymwneud â'u profiad o ganser yn y gwaith ac yn ystod unrhyw absenoldeb
- addasiadau gwaith, megis newidiadau i oriau gwaith, ac addasiadau i'r weithfan neu gyfarpar y swyddfa
- amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl i gael triniaeth
- cymorth i ddychwelyd i'r gwaith, megis dychwelyd yn raddol, a chyngor gan yr adran iechyd galwedigaethol
- cyfeillion gwaith - cymorth arbennig gan gydweithwyr sydd wedi cael profiad tebyg yn ymwneud â chanser
- gwybodaeth am grwpiau a rhwydweithiau cymorth Macmillan allanol
- modd o gael gafael ar wybodaeth a chymorth drwy ein Llinell Gymorth
- trefniadau tâl salwch priodol sy'n cydbwyso, ar un llaw, ein cyfyngiadau o ran adnoddau fel elusen ac, ar y llaw arall, ein dymuniad i gynorthwyo staff gyda'r problemau ymarferol sy'n deillio o absenoldeb o'r gwaith yn ystod cyfnod anodd iawn yn eu bywydau; rhoddir ystyriaeth arbennig i'r rhai a fydd wedi cael prognosis angheuol
- cymorth arbenigol (a allai gynnwys cwnsela) drwy ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

Ar gyfer rheolwyr a gweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan ganser yn anuniongyrchol, byddwn yn sicrhau'r canlynol:

- hyfforddiant am ganser, ei effeithiau, a sut i gyfathrebu â phobl amdano
- modd o gael gafael ar wybodaeth berthnasol - yn cynnwys ein Harweiniad i Reolwyr ar Ganser yn y Gweithle a'n canllaw canser
- cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth neu gyngor mwy arbenigol
- amgylchedd cefnogol lle mae'n iawn i siarad am ganser, neu i beidio â siarad amdano, yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn; lle y derbynnir na fydd staff, o bryd i'w gilydd, yn awyddus i fynd i fathau arbennig o ddigwyddiadau a allai achosi gofid iddynt; a lle rydym yn cydnabod y gallai staff sydd mewn cysylltiad rheolaidd â phobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser fod angen cymorth arbennig gan eu rheolwyr a'u cydweithwyr ar adegau.

Er mai canser yw canolbwynt y polisi, gellir cymhwyso'r un egwyddorion i unrhyw salwch critigol arall.

Mae pob un o reolwyr Macmillan yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn ymgyfarwyddo â'r polisi hwn ac yn ei ddilyn. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o'r polisi ac yn deall ei gyfrifoldeb ei hun a chyfrifoldebau ei sefydliad yn hyn o beth.

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn o bryd i'w gilydd ac yn ei ddiwygio fel y bo angen pan fydd arferion newydd yn codi ym maes gofal a chymorth canser, a'n hamgylchiadau ein hunain fel sefydliad elusennol.

3 Gweithredu polisi

Rhoddir gwybodaeth fanwl am sut y byddwn yn gweithredu'r polisi hwn yng nghanllaw Macmillan i reolwyr ar gyfer gweithio drwy ganser.

Cymorth Canser Macmillan
89 Albert Embankment, London SE1 7UQ
Llinell Gymorth Canser **0808 808 2020**

www.macmillan.org.uk/work

® Cymorth Canser Macmillan, Tachwedd 2007.
Rhif Elusen Gofrestredig 261017.
Rhif Elusen Ynys Manaw 604. MAC11117_MGP2W